**EOC-07-00(cof)**

**Pwyllgor Cyfle Cyfartal**

**COFNODION**

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 25 Hydref 2000 | |
| **Amser:** | 2.00 pm | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol | |
| **Yn bresennol:** | **Aelodau** | |
| | Edwina Hart (Cadeirydd) | Gwyr |
| | Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| | Christine Chapman | Cwm Cynon |
| | Richard Edwards | Preseli Sir Benfro |
| | Alison Halford | Delyn |
| | Gareth Jones | Conwy |
| | Helen Mary Jones | Llanelli |
| | David Melding | Canol De Cymru |
| | Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| | **Ymgynghorwyr i’r Pwyllgor** | |
| | Kate Bennett | Comisiwn Cyfle Cyfartal |
| | William Bee | Comisiwn Hawliau Anabledd |
| | **Swyddogion** | |
| | Mike Harper | Is-adran Cydraddoldeb a Gweinyddiaeth Gyhoeddus |

| | |
|---|---|
| Charles Willie | Uned Polisi Cydraddoldeb |
| Andrew George | Clerc y Pwyllgor |
| Julie Bragg | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Glyn Davies.

**Eitem 1 ar yr Agenda: Penodiadau Cyhoeddus**
**Cyflwyniadau: Y Fonesig Rennie Fritchie, Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus a Wendy Morgan, Uwch Swyddog Personél, BBC Cymru**

**Papur:** EOC-07-00(p.1)

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod ac estyn cydymdeimlad y Pwyllgor i'r Fonesig Rennie Fritchie ar ei phrofedigaeth yn ddiweddar. Wrth gyflwyno'r eitem gyntaf dywedodd y dylai'r system penodiadau cyhoeddus adlewyrchu yr amrywiaeth lawn o bobl yng Nghymru. Ar hyn o bryd, roedd ymdeimlad cyffredinol nad oedd y system yn un eglur; nad oedd yn gweithredu ar sail teilyngdod; ac mai o blith amrywiaeth gul o bobl y deuai penodiadau cyhoeddus.

1.2 Rhoddodd y Fonesig Rennir Fritchie wybod i'r Pwyllgor am ei rôl hi fel Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus y DG. Ei rôl oedd rheoleiddio, monitro, cynghori ac adrodd ar 12,500 o benodiadau cyhoeddus yn y DG. Hi hefyd oedd yr ombwdsmon dros benodiadau cyhoeddus ac yn deilio â chwynion am y broses neu benodiadau penodol.

1.3 Roedd ganddi dri prif nod:

- **gwneud y system benodi yn broses deg ac agored** – dylai'r wybodaeth fod yn hawdd i'w chanfod ac fe ddylai'r broses o wneud cais fod yn ddidrafferth. Roedd y Fonesig Rennie yn awyddus i wneud y broses mor eglur â phosibl fel y byddai ymgeiswyr, ar unrhyw adeg, yn gwybod beth oedd yn digwydd a pha derfynau amser oedd ar waith ym mhob rhan o'r broses. Y bwriad oedd y byddai aseswyr annibynnol yn sicrhau bod y broses yn deg ac agored.

- **dylid bod canlyniadau o ansawdd i'r broses** - dylai'r rhai a benodwyd fod yn addas at ddiben y swydd ac yn gallu gwneud y swydd gyda'r gefnogaeth angenrheidiol. Dylai'r sefydliadau sy'n penodi weithredu hyfforddiant cyflwyno, hyfforddiant cymorth a threfniadau ar gyfer asesu a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn y swydd.

- **gwella hyder y cyhoedd a'u dirnadaeth o'r system** – comisiynodd y Fonesig Rennie MORI i gynnal arolwg o'r lefelau presennol o wybodaeth a dirnadaeth o'r broses. Cynhaliwyd grwpiau ffocws ac yna cafodd 1780 o oedolion eu cyfweld. Yna cymerodd MORI agweddau amrywiaeth i

ystyriaeth trwy gynnal 138 o gyfweliadau ychwanegol gyda chynrychiolwyr o amryw o grwpiau ethnig. Datgelodd canlyniadau'r arolwg ddirnadaeth wael y cyhoedd o gyrff cyhoeddus a diffyg gwybodaeth am y system penodiadau cyhoeddus yn gyffredinol. Hwyrach y bydd mwy o ymgeiswyr yn dod i'r amlwg os gellid codi proffil gwaith y gwasanaethau cyhoeddus.

1.4 Sefydlodd y Fonesig Rennie wythnos gwasanaeth cyhoeddus fyddai'n cael ei chynnal yn ystod wythnos 20 Tachwedd. Bydd hyn yn cydnabod pobl a oedd wedi gwasanaethu yn gyhoeddus ac yn diolch iddynt am eu gwaith. Ymysg y gweithgareddau byddai seminar i oresgyn y rhwystrau i wneud cais am benodiadau; byrddau ffug yn cynnwys merched a disgyblion chweched dosbarth; hyfforddiant ar ysgrifennu CV a thechnegau cyfweld; a chyfle i gysgodi. Roedd digwyddiad hefyd yn cael ei drefnu yn arbennig i Gymru.

1.5 Diolchodd y Cadeirydd i'r Fonesig Rennie am ei disgrifiad o'i rôl. Dywedodd fod angen mwy o hyder yng Nghymru nid yn unig yn y broses ond hefyd yn yr aseswyr annibynnol a'r modd y cawsant eu penodi. Roedd materion dinasyddiaeth ehangach ac angen i ddatblygu strwythurau fyddai'n helpu pobl i ddatblygu.

1.6 Yn ystod y drafodaeth, codwyd y pwyntiau canlynol gan yr aelodau:

1. roedd angen hyfforddi'r aseswyr annibynnol a phawb oedd yn gysylltiedig â'r broses o benodi. Byddai hefyd yn ddefnyddiol datblygu system er mwyn i'r aseswyr allu cyflwyno adborth ar eu canfyddiadau i'r Comisiynydd. Yn ôl y Fonesig Rennie roedd yr adborth gan aseswyr annibynnol yn cael ei gyflwyno mewn amryw o ffyrdd gan gynnwys eu nodiadau hwy eu hunain ar y broses. Yn aml roedd yr aseswyr yn arbenigwyr adnoddau dynol, gweision sifil wedi ymddeol neu ymgeiswyr oedd wedi methu â chael eu penodi i swydd yn y gwasanaethau cyhoeddus o drwch blewyn. Y pwyntiau pwysicaf i'w cofio wrth benodi oedd tegwch ac ansawdd. Roedd yng nghanol y broses o lunio canllawiau drafft ar sut y dylent weithio. Roedd wedi cyfarfod â bron pob un o'r aseswyr yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac wedi darparu hyfforddiant iddynt ar gyfle cyfartal a diogelu data. Dywedodd ei bod yn datblygu canllawiau ar gyfer aseswyr a bod cyfleoedd hyfforddi pellach ar y gweill. Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon roedd 'banciau' o aseswyr yn cael eu sefydlu oedd yn annibynnol ar y weithrediaeth.
2. roedd yn ymddangos fod rhai unigolion wedi'u penodi i nifer o wahanol sefydliadau. Dylid cadw cofnod o'r bobl â sawl penodiad er mwyn sicrhau nad oes ganddynt fwy na'r hyn a oedd yn gorfforol bosibl iddynt ymdopi â hwy. Dywedodd y Fonesig Rennie ei bod wedi gofyn i'w harchwilwyr gynnal astudiaeth ar y pwnc. Roedd hefyd yn annog adrannau o'r llywodraeth i gofnodi a chadw cofrestr o bobl oedd â sawl penodiad. Roedd Pwyllgor Neill, Nolan gynt, wedi gosod canllawiau ar safonau mewn bywyd cyhoeddus oedd yn cynnwys y mater o bobl â sawl swydd. Nid oedd o fewn ei chylch gorchwyl i ddweud faint o swyddi y dylai person eu dal ond yn hytrach i geisio rheoleiddio'r hyn oedd yn cael ei wneud. Fe allai, fodd bynnag, edrych ar gyfanswm y nifer o ddyddiau roedd gofyn i rywun weithio ac asesu a oedd hynny yn ymarferol. Gallai gyhoeddi ei chanfyddiadau a lleisio ei phryderon ynglyn â'r materion dan sylw;
3. roedd ansawdd ac amrywiaeth yn rhyng-berthynol. Cytunodd y Fonesig Rennie fod hyn yn wir ac yn arbennig o berthnasol os byddai Cadeirydd yn ystyried eu bwrdd o ran eu sgiliau. Gellid

cryfhau timau trwy ganfod y person â'r sgiliau priodol a allai fodloni'r agwedd o amrywiaeth hefyd;

4. byddai'n ddiddorol gwybod pam nad yw pobl yn gwneud cais am benodiadau cyhoeddus yn ogystal â pham eu bod yn gwneud cais. Teimlai'r Fonesig Rennie y gallai holi medrus ddod ag atebion dwy ochr y geiniog i'r amlwg. Roedd angen hefyd i ganfod beth oedd gan y rhai oedd yn marchnata a hysbysebu'r swydd mewn golwg i weld sut roedd y wybodaeth a roddwyd am y swydd yn denu ymgeiswyr neu'n eu hannog yn erbyn ymgeisio. Gallai tâl fod yn ffactor pwysig i'r hunan-gyflogedig neu bobl sy'n gweithio i gwmni bach na allai fforddio i'w rhyddhau heb gael ad-daliad;
5. gellid cymryd ymagwedd wahanol at benodiadau cyhoeddus trwy ddatblygu 'rhestr gymeradwy' o'r rhai a allai fod yn gymwys ond oedd â rhai diffygion, megis diffyg profiad ariannol neu adnoddau dynol. Yna gellid mynd i'r afael â'r diffygion hyn trwy ddarparu hyfforddiant priodol. Gallai'r rhestr dargedu cymunedau penodol fel y gellid datblygu talent. Ymatebodd y Fonesig Rennie y gallai'r rhestr daro fel elitiaeth i rai ac na fyddent o ganlyniad yn dymuno bod arni. Hwyrach y byddai'n well gan rai pobl wneud cais am swyddi penodol. Roedd perygl hefyd o gael rhestr hir o bobl heb unrhyw siawns gwirioneddol o gael eu penodi;
6. dylai Aelodau'r Cynulliad sy'n aelodau ar baneli sy'n gwneud penodiadau cyhoeddus gael hyfforddiant mewn cyfle cyfartal hefyd.

1.7 Cynigiodd y Cadeirydd ymchwilio i rai o'r materion a gododd y Fonesig Rennie yn arolwg y Pwyllgor o benodiadau cyhoeddus. Roedd yn cymeradwyo'r syniad o grwp annibynnol o aseswyr a Chomisiynydd ar wahân i Gymru. Gofynnodd i'r swyddogion baratoi papur ar hyn ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor, gan gyfeirio at y system yn yr Alban. Roedd hefyd yn ymwybodol o bwysigrwydd taliadau os mai'r nod oedd sicrhau amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus. Roedd adroddiad ar wahân yn cael ei gynhyrchu gan y Cynulliad ar gydnabyddiaeth penodiadau cyhoeddus a byddai'n rhoi gwybod mwy am hyn yn y cyfarfod nesaf. Dywedodd y Cadeirydd y byddai yn ysgrifennu at y Llywydd ac arweinwyr y pleidiau ynglyn â'r mater o hyfforddiant mewn cydraddoldeb i Aelodau'r Cynulliad.

1.8 Gwahoddwyd Wendy Morgan i amlinellu'r papur roedd wedi'i gynhyrchu ar gyfer y Pwyllgor ynglyn â'r system penodiadau cyhoeddus yng Nghymru (EOC-07-00 p.1). Ei chylch gorchwyl oedd cynghori ar raglen weithredu er mwyn cynyddu'r nifer o ferched, pobl ag anableddau a phobl o leiafrifoedd ethnig sy'n gwneud cais am y 600 o benodiadau a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru bob blwyddyn. Byddai'r cyrff hyn o ganlyniad yn rhoi cynrychiolaeth well o'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.

1.9. Roedd yr adroddiad yn disgrifio'r sefyllfa ar hyn o bryd ac yn gwneud argymhellion ar gyfer camau gweithredu pellach o dan y penawdau: diffinio'r swydd; denu ymgeiswyr; recriwtio ymgeiswyr; cadw a datblygu pobl; a gwerthuso swydd a chydnabyddiaeth. Amlinellwyd cynigion hefyd ar gyfer cynhyrchu cyhoeddusrwydd ynglyn ag ymgymryd â phenodiadau cyhoeddus a hyrwyddo gwasanaeth cyhoeddus fel dinasyddiaeth weithredol.

1.10 Diolchodd y Cadeirydd i Mrs Morgan am ei hadroddiad. Hoffai drafod yr adroddiad yn fanwl gyda'r ymgynghorwyr cydraddoldeb cyn mynd ymhellach, a chynigiodd y dylai'r Pwyllgor gynnal

cyfarfod ar wahân i'w drafod. Gofynnodd hefyd i'r swyddogion lunio siart i ddangos, ar gyfer pob corff, pryd, ac at ba lefel, roedd Aelodau'r Cynulliad yn ymwneud â'r broses o benodi.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Adroddiad y Cadeirydd**
**Eitem Lafar**

2.1 Nododd y Cadeirydd fod cytundeb partneriaeth wedi'i lunio rhwng y Cynulliad a'r tri chorff cydraddoldeb ar raglen waith flynyddol gytûn. Dywedodd y byddai'r trafodaethau'n parhau ac y byddai'n adrodd yn ôl ar y datblygiadau yn y dyfodol.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Ymchwiliad Stephen Lawrence**
**Papur: EOC-07-00(p.2)**

3.1 Cynhaliwyd cyfarfod o Aelodau'r grwp llywio ar 13 Medi ac fe roddwyd gwybod am y datblygiadau o fewn y gweithgor. Roedd cynllun gweithredu yn cael ei lunio ac fe gyfarfu'r gweithgor eto ar 18 Hydref i'w drafod. Roedd yn cynnwys tri prif faes: y cwricwlwm, cofnodi digwyddiadau hiliol a swyddogaeth ESTYN. Byddai cyfarfod pellach yn cael ei gynnal tuag at ddiwedd Tachwedd. Yn anffodus, nid oedd Cadeirydd y gweithgor yn bresennol i ddarparu adroddiad manylach.

3.2 Gwahoddwyd y Pwyllgor gan aelodau'r grwp llywio i ystyried cynigion y grwp y dylid gwahodd cynrychiolwyr o'r undebau athrawon i gymryd rhan y gweithgor ac y dylid gweithredu ymagwedd tair haen i newid y cwricwlwm. Byddai hyn yn cynnwys 'quick hits' fyddai'n golygu gwneud mân newidiadau i'r cwricwlwm; ffocws ar flynyddoedd cynnar; a materion mwy cymhleth nad yw'n hawdd mynd i'r afael â hwy neu lle nad oes deunyddiau ar hyn o bryd. Roedd y broses gyfan yn golygu newid sylweddol mewn agwedd er mwyn mewnoli cydraddoldeb ym mhob agwedd ar y cwricwlwm. Gallai hyn olygu darparu hyfforddiant mewn cydraddoldeb i'r rhai sy'n hyfforddi i fod yn athrawon a llywodraethwyr ysgol. Roedd y grwp llywio yn cydnabod na ellid gwneud newidiadau ar raddfa fawr dros nos ond y byddai'n awyddus i gael amserlen realistig.

3.3 . Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn hapus gyda'r cynigion a wnaed yn yr adroddiad a chytunodd y dylid trefnu cyfarfod gydag ACCAC a'r Gweinidog newydd dros Addysg er mwyn pwysleisio bod yr hyn a gynigwyd yn fater brys ac i drafod y newidiadau oedd yn cael eu datblygu gan ACCAC.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Iaith mewn Cyfle Cyfatal**
**Cyflwyniad: Rhodri Williams, Cadeirydd a Rhys Dafis, Sectorau Cyhoeddus a Gwirfoddol, Bwrdd yr Iaith Gymraeg**
**Papur: EOC-07-00(p.3)**

4.1 Dywedodd Rhodri Williams y dylid ystyried iaith fel mater o gydraddoldeb. Teimlai fod hyn yn cydymffurfio ag Adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru sy'n ei gwneud hi'n ddyletswydd ar y Cynulliad i sicrhau cydraddoldeb i holl drigolion Cymru. Roedd wedi derbyn gohebiaeth gan y Comisiwn Cyfle Cyfartal a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a nododd eu bod yn gyffredinol yn

cefnogi'r egwyddorion a nodwyd ym mhapur Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

4.2 Gwnaed wyth cynnig penodol yn y papur y gofynnodd y Bwrdd i'r Pwyllgor a'r Cynulliad ei gefnogi. Roeddent hefyd yn berthnasol i'r amryw o sefydliadau yng Nghymru sydd o dan arweiniad y Cynulliad. Roedd y Bwrdd wedi cynghori'r tri chorff cydraddoldeb ar faterion ieithyddol. Roedd ganddo hefyd swyddogaeth i osod esiampl ar gyfer cyrff oedd dan ei nawdd, er enghraifft Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, a Mudiad Ysgolion Meithrin.

4.3 Bu ganddo ddiddordeb mawr yn y drafodaeth ar benodiadau cyhoeddus gan fod Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ddiweddar wedi penodi aelodau ar ei fwrdd. Roeddent wedi llwyddo i gael cydraddoldeb rhywiol a chynrychiolydd o leiafrif ethnig hefyd. Roedd cyfansoddiad y bwrdd yn dangos fod y sefydliad yn ymrwymedig i gydraddoldeb yn ei ystyr ehangaf. .

4.4 Teimlai'r aelodau fod angen ystyried agweddau penodol o'r polisi iaith yng ngweithgareddau'r Pwyllgor ond byddai gan y Bwrdd ddiddordeb yng ngwaith pwyllgorau eraill hefyd. Er enghraifft, yn ddiweddar fe gynghorodd Gweinidog dros Iechyd y Cynulliad ar ddarparu gwasanaethau i gleifion sy'n siarad Cymraeg. Fodd bynnag, roedd yn glir y byddai gwaith y Bwrdd o ddydd-i-ddydd yn berthnasol i'r Pwyllgor Diwylliant a Chwaraeon. Roedd y Cynulliad ar hyn o bryd yn cynnal arolwg pum mlynedd o'r Bwrdd fel corff ac arolwg o'r polisi iaith yn gyffredinol.

4.5 Dywedodd y Cadeirydd fod papur Bwrdd yr Iaith yn codi cwestiynau ehangach na chydraddoldeb mewn iaith. Byddai ganddi ddiddordeb gweld beth oedd barn y Pwyllgor Diwylliant a Hamdden ar rôl y Cynulliad mewn perthynas â'r materion hyn. Cynigiodd hefyd y dylid ystyried y materion a godwyd gan gyflwyniad y Bwrdd pan fyddai'r Pwyllgor yn ystyried penodiadau cyhoeddus. Mewn ymateb i gwestiwn ynglyn â'r gost pan fyddai Aelodau'r Cynulliad yn ymateb i ohebiaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg, addawodd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at y Pwyllgor Ty.

**Eitem 5 ar yr Agenda: Cod Ymarfer Gwirfoddol ar Rywioldeb**
**Cyflwyniad: Angela Mason, Cyfarwyddwraig Weithredol, Stonewall**

5.1 Croesawodd y Cadeirydd Angela Mason a wnaeth gyflwyniad i'r Pwyllgor ym mis Mehefin pan grybwyllodd fod Stonewall yng nghanol llunio Cod Ymarfer Gwirfoddol ar Rywioldeb. Cafodd ei gwahodd yn ôl gan y Pwyllgor er mwyn iddi ddarparu rhagor o wybodaeth ar y Cod. Dywedodd Ms Mason bod Stonewall ers hynny wedi cynnal dau gyfarfod ymgynghorol yng Nghaerdydd a Llanelwy ac wedi penderfynu sefydlu Fforwm Stonewall Cymru er mwyn gosod agenda Stonewall yng Nghymru. Ei gobaith oedd y byddent wedi penodi rhywun yn gydlynydd erbyn y Flwyddyn Newydd. Cynigiodd y Cadeirydd y dylid rhoi gwahoddiad agored iddynt gynghori'r Pwyllgor ar faterion ynglyn â thueddiadau rhywiol.

5.2 Effeithiwyd ar ddigwyddiadau yn ymwneud â'r Cod Ymarfer Gwirfoddol gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Cyflogaeth y cytunodd holl aelodau'r UE arni yn Lwcsembwrg yr wythnos flaenorol. Roedd hyn yn cynnwys gwahaniaethu ar sail rhyw, anabledd, tarddiad hiliol, crefydd a thueddiadau rhywiol a

byddai’n cael effaith ar y driniaeth o bob math o wahaniaethu yn y dyfodol.

5.3 O ganlyniad i’r cam pwysig hwn ymlaen, penderfynodd yr Adran Addysg a Chyflogaeth (DfEE) na fyddent yn cyhoeddi unrhyw arweiniad ar hyn o bryd. Byddai’n rhaid gwneud penderfyniad ar y math o ddeddfwriaeth ddomestig y dylid ei gweithredu, a phryd. Roedd y fframwaith ar gyfer deddfwriaeth cydraddoldeb yn fater o bwys. Tra byddai rhai yn hoffi gweithio tuag at Ddeddf Cydraddoldeb, dim ond yn ddiweddar y sefydlwyd y Comisiwn Hawliau Anabledd ac nid oedd y cyrff cydraddoldeb wedi arfer gweithio gyda’i gilydd. Gallai Gorchymyn mewn Cyngor roi’r Gyfarwyddeb o ran tueddiadau rhywiol mewn grym yn ddiymdroi yn y DG ond nid oedd corff wedi'i sefydlu i oruchwylio materion lesbiaid a hoywon. Gwnaed sylw gan Kate Bennett fod penderfyniad a wnaed mewn Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth yn yr Alban yn ddiweddar yn ymddangos fel petai’n awgrymu fod gwahaniaethu ar sail tueddiadau rhywiol yn dod o dan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb bresennol ac y gellid gwneud y Comisiwn Cyfle Cyfartal yn gyfrifol am gynghori unigolion ar faterion o’r fath er nad oedd yn ofynnol iddynt wneud hynny yn statudol cyn hyn. Fodd bynnag, gan mai dim ond 1% o’r bobl hynny oedd yn gwneud cwynion ar sail rhyw y gallai’r Comisiwn eu helpu ar hyn o bryd, roedd yn anodd gweld sut y gellid darparu cyngor ar dueddiadau rhywiol heb adnoddau ychwanegol.

5.4 Cynhaliwyd astudiaethau ar y materion gwahaniaethu allweddol mewn cyflogaeth. Nododd adroddiad *Less Equal than Others* Stonewall fod 16% o lesbiaid a hoywon wedi bod yn dyst i wahaniaethu a 48% wedi’u haflonyddu. Roedd llawer yn dibynnu a oeddech yn ‘agored’ am eich tueddiadau yn y gwaith ac roedd dwy ran o dair yn cuddio eu tueddiadau rhywiol mewn rhyw ffordd neu’i gilydd. Roedd astudiaeth gan y TUC, *Straight Up! Why the Law should Protect Lesbian and Gay Workers* wedi dod i gasgliad tebyg, gan nodi lefelau arwyddocaol o alw enwau a dilorni homoffobig.

5.5 Cynhyrchwyd y Cod Ymarfer Gwirfoddol ar Rywioldeb gan y CBI, TUC, y Ffederasiwn Busnesau Bach a Stonewall. Y nod fu cadw’r arweiniad oedd ynddo yn syml. Roedd rhai cyflogwyr goleuedig yn y sector preifat wedi sylweddoli fod cyfalaf dynol yn gynyddol bwysig wrth gynnal eu min gystadleuol a’u bod wedi recriwtio o’r gymuned lesbiaid a hoywon er mwyn cynyddu amrywiaeth a chreadigrwydd eu gweithlu. Fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, roedd angen i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus adlewyrchu’r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.

5.6 Roedd y copi drafft o’r Cod yn cynnwys pedwar cam:

1. **Adeiladu amrywiaeth a pharch** trwy barchu eich staff fel unigolion ac ymgynghori â hwy ar bolisïau cynwysoldeb;
2. **Recriwtio yn deg ac agored** a pharchu cyfrinachedd unigolion. Roedd hyn yn cynnwys monitro ymddygiad a chael polisïau aflonyddu a chwyno effeithiol mewn grym;
3. **Delio â bwlio ac aflonyddu.** Roedd pob math o sylwadau ac ymddygiad yn dal i gael eu dioddef ac roedd yn bwysig tynnu'r llinell o beth ddylid a beth na ddylid ei ganiatáu;
4. **Budd-daliadau yn gysylltiedig â gwaith**. Nid oedd y Gyfarwyddeb yn berthnasol i’r mater hwn er bod rhai cwmnïau yn fodlon ystyried ehangu budd-daliadau fel cynlluniau pensiwn i gynnwys darparu ar gyfer partneriaid o’r un rhyw er mwyn cael y dalent orau. Nid yw’r sector cyhoeddus

yn gwneud darpariaeth o’r fath ar hyn o bryd ac roedd yn ymddangos mai’r broblem fwyaf oedd y gost.

5.7 Dywedodd Ms Mason fod lle i fynd â nifer o’r materion hyn yn eu blaen yng Nghymru. Roedd yn bwysig bod Cymru yn cyfrannu at drafodaethau ar sut y dylid gweithredu’r ddeddfwriaeth a pha arweiniad y dylid ei gynhyrchu. Byddai’n ddefnyddiol cynnal arolwg o gyflogwyr yng Nghymru er mwyn nodi materion a rhwystrau ar eu cyfer ac efallai i ddatblygu arweiniad yn arbennig ar gyfer Cymru. Roedd y Cadeirydd yn cytuno y gellid trafod y materion hyn yn San Steffan a chynigiodd y dylid ysgrifennu i’r DfEE yn gofyn beth y gellid ei wneud ac i holi ynglyn â phryd y byddai’r gyfarwyddeb a’r Cod Gweithredu yn cael eu gweithredu. Gofynnodd i’r swyddogion gael gafael ar gopi o benderfyniad y Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth ac i gynghori ar gyfrifoldebau’r Comisiwn Cyfle Cyfartal.

**Eitem 6 ar yr Agenda: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
**Papur: EOC-06-00(min)**

6.1 Cytunodd yr aelodau ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.

6.2 Cytunwyd y gellid trafod papur SENSE ar Gefnogi Pobl Fyddar-ddall yng Nghymru (EOC007-00 (p.5)), a oedd yn bapur i’w nodi, mewn cyfarfod yn y dyfodol. Gofynnwyd i’r swyddogion gynhyrchu nodyn ar y trefniadau pleidleisio ar gyfer pobl fyddar-ddall. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth ar archwiliadau cyfle cyfartal a godwyd mewn cyfarfod diweddar o’r Cyngor Partneriaeth.

6.3 Cynigiodd y Cadeirydd gyflwyno adroddiad yn y cyfarfod nesaf ar y cyfarfod a oedd wedi’i gynllunio gyda Chadeirydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

6.4 Daeth y cyfarfod i ben am 16.50pm.